# HARRIES, DAVID (1747 - 1834), cerddor a hynafiaethydd

**Enw:** David Harries
**Dyddiad geni:** 1747
**Dyddiad marw:** 1834
**Rhiant:** Winifred Harries
**Rhiant:** John Harries
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** cerddor a hynafiaethydd
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Hanes a Diwylliant; Cerddoriaeth
**Awdur:** Robert David Griffith

Ganwyd 16 Medi 1747 yn Nantllymystyn, Llansantffraid, Maesyfed, mab i John a Winifred Harries. Cyfansoddodd donau ac anthemau. Anfonodd ei dôn ' Babel ' i eisteddfod y Trallwng 1824 ond ni chafodd y wobr. Ceir hi yn *Caniadau Seion* (Mills). Yn yr *Atodiad* i'r *Caniadau Seion* y mae ' O Dduw gwared Israel ' o'i waith, ac, yn *Cerddor y Cymry*, garol Nadolig - ' Cyduned bob Cristion.' Yr hyn â'i henwogodd fel cerddor oedd ei anthem ' Par imi wybod dy ffyrdd,' a fu yn boblogaidd hyd at ddechrau'r 20fed ganrif. Trefnwyd yr anthem gan ' Ieuan Gwyllt,' ac ymddangosodd yn *Y Cerddor Cymreig*, rhif. 82-3, ac yn *Llyfr Anthemau a Salm-donau* (' Alaw Ddu '). Yn 1824 symudodd i fyw at ei ferch i Garno, Sir Drefaldwyn, ac yno y bu hyd ei farwolaeth, 6 Ionawr 1834. Claddwyd ef ym mynwent eglwys Carno.

## Awdur

**Robert David Griffith**, (1877 - 1958)

## Ffynonellau


*Geirlyfr Bywgraffiadol o Enwogion Cymru* (1870), 460

M. O. Jones, *Bywgraffiaeth Cerddorion Cymreig* (1890)

*Y Gwyliedydd*, 1834

*Y Brython*, 1861

R. Williams, *Montgomeryshire Worthies* (1894)

*Y Cerddor*, Mawrth 1889


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20732824


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu